

Cymwysterau llinol ac unedol

Caiff cymwysterau TGAU eu hasesu mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai yn unedol (y cyfeirir atynt hefyd fel modiwlaidd) ac yn cynnwys unedau y gellir eu hasesu ar wahanol adegau yn ystod y cwrs, ac mae eraill yn llinol lle y caiff pob arholiad ei sefyll ar ddiwedd y cwrs.

Cymwysterau llinol

Fel rhan o gymwysterau llinol, mae'n rhaid i bob arholiad gael ei sefyll ar ddiwedd y cwrs. Ar gyfer cymwysterau TGAU, byddai hyn fel arfer ar ddiwedd cwrs astudio dwy flynedd.

Gyda strwythur llinol, mae gan athrawon fwy o hyblygrwydd o ran sut y maent yn cyflwyno cynnwys y cwrs. Mae hefyd yn golygu bod gan fyfyrwyr fwy o amser i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac i feithrin dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r pwnc. Mewn pynciau megis Cymraeg iaith a Saesneg iaith, bydd perfformiad myfyrwyr yn gwella dros amser wrth iddynt aeddfedu.

Mae TGAU Saesneg Iaith yn gymhwyster llinol:

Er bod y cymhwyster wedi'i strwythuro ar ffurf unedau, cynhelir yr holl waith asesu ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ac aeddfedu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a llafaredd.

Cymwysterau unedol

Gyda chymwysterau unedol neu fodiwlaid, gellir asesu dysgwyr ar unedau unigol tra bod y cwrs yn cael ei addysgu. Mae myfyrwyr yn cael canlyniadau ar gyfer yr unedau y byddant yn eu sefyll, ond ni fyddant yn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster hyd nes y byddant wedi cwblhau pob un o'u hunedau.

Mae strwythur cymwysterau unedol yn golygu y gellir rhannu cynnwys yn ddarnau wedi'u diffinio'n glir, gan sicrhau ffocws ac eglurder wrth gyflwyno ac wrth ddysgu. Gall myfyrwyr ddewis gwasgaru eu harholiadau dros gyfnod y cwrs, gan leihau rhywfaint o'r pwysau sy'n gysylltiedig â sefyll pob arholiad gyda'i gilydd ar ddiwedd y cwrs.

Mae p'un a yw cymhwyster TGAU yn unedol neu'n llinol yn dibynnu ar ba ffurf sydd fwyaf priodol ar gyfer y cynnwys y mae'n rhaid asesu'r myfyrwyr arno.

Mae TGAU Hanes yn gymhwyster unedol:

Yn Uned 1, mae dysgwyr yn astudio Cymru a'r safbwynt ehangach, mae Uned 2 yn canolbwyntio ar Hanes â ffocws Ewropeaidd ac mae Uned 3 yn ystyried Astudiaethau Thematig o safbwynt hanesyddol eang. Er bod sgiliau allweddol ac amcanion dysgu yn sail i bob uned, mae'r cynnwys pwnc yn benodol i'r uned honno felly strwythur unedol yw'r model priodol ar gyfer y cymhwyster hwn.

